

## Beth sy'n Creu Deilliannau Dysgu ac Asesu Da?

Mae deilliannau dysgu yn disgrifio'r hyn y dylai myfyrwyr ei **wybod** a gallu ei **wneud** mewn ffordd amlwg erbyn diwedd sesiwn addysgu neu fodiwl neu raglen. Maent yn gysylltiedig â, ond yn wahanol i, nodau addysgu, sydd yn hytrach yn disgrifio'n fras beth yw pwrpas y sesiwn neu fodiwl neu raglen a'i ddiben cyffredinol. Er mwyn dangos bod myfyrwyr wedi ennill eu gradd, rhaid addysgu a phrofi'r holl ddeilliannau dysgu.

Mae [Datganiadau Meincnodi Pwnc](#) yn rhoi arweiniad ar gynnwys addysgu ac asesu o fewn pwnc ac yn cael eu hysgrifennu gan academyddion eraill. Mae'n ddefnyddiol cysylltu cynnwys neu gwmpas modiwl â'r rhain. Dylai addysgu fod yn fwy heriol wrth i fyfyrwr symud ymlaen. Mae'r disgwyliadau hyn wedi'u nodi yn [Fframweithiau Cymwysterau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch](#) ac maent yn ddefnyddiol wrth benderfynu sut i addysgu ac asesu pob modiwl.

Gall ysgrifennu deilliannau dysgu eich helpu i gynllunio eich addysgu, er enghraifft, trwy flaenoriaethu pwyntiau dysgu allweddol ar gyfer y sesiwn neu fodiwl a thrwy hynny eich galluogi i gynllunio eich dull o addysgu ar draws sesiwn neu raglen. Mae rhywfaint o ganllawiau ar ysgrifennu deilliannau dysgu eisoes ar gael ar [wefan Prifysgol Bangor](#). Bydd angen i chi gadw deilliannau dysgu mewn cof wrth gynllunio eich strategaeth asesu. Dylid rhannu deilliannau dysgu gyda myfyrwyr ar ddechrau pob modiwl gan y bydd yn eu helpu i ddeall yr hyn y maent i fod yn ei ddysgu a'r hyn y dylent ei wybod a'i wneud ar bob cam.

Mae llawer o erthyglau defnyddiol ar y rhyngberthynas rhwng asesu a'r defnydd o asesu i gyflawni canlyniadau dysgu da. Mae enghreifftiau hawdd eu dilyn yn cynnwys:

- [Asesu ar gyfer Dysgu \(Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg\)](#)
- [Creu Deilliannau Dysgu \(Prifysgol Stanford\)](#)

Wrth ddatblygu eich rhaglen astudio, dylech ystyried gwahanol lefelau o ddeilliannau dysgu (gan amlaf yn cynyddu mewn cymhlethdod wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen o'r flwyddyn gyntaf i'r flwyddyn olaf) ac yna ymgorffori gwahanol ddulliau asesu i brofi os yw dysgu wedi'i gyflawni. Mewn pynciau ymarferol, mae dysgu trwy wneud yn aml yn cael ei ystyried fel ffordd dda o brofi dysgu myfyrwr oherwydd dylent allu dangos bod ganddynt y sgil neu'r cymhwysedd sy'n cael ei addysgu. Weithiau cyfeirir at ddysgu trwy wneud hefyd fel "Dysgu Gweithredol". Mae ystod eang o wahanol ddeilliannau dysgu, ac mae dysgu trwy wneud yn enghraifft o, ond nid yr unig opsiwn. Bydd y Brifysgol yn annog gwahanol fathau o ddeilliannau dysgu yn unol â'r hyn sydd fwyaf addas ar gyfer y cwrs. Gellir dod o hyd i fanylion ac enghreifftiau o fanteision dysgu trwy wneud [ar-lein](#).

Dylech hefyd ystyried sut mae'r deilliannau dysgu yn berthnasol i Nodweddion Graddedigion Bangor: Herio, Cymhwyso, Ymholi, Hunan-gyfeiriad, a Chydweithio. Gall defnyddio'r termau hyn helpu myfyrwyr i gysylltu cynnwys y modiwl a'r sgiliau cyflogadwyedd y maent yn eu datblygu.

Yn nodweddiadol, bydd yna ddeilliannau dysgu ar gyfer bob sesiwn ddysgu (darlith, tiwtorial, sesiwn ymarferol ac ati). Gellir asesu'r rhain gan ddefnyddio dull ffurfiannol (asesiad heb farc) e.e. trwy ddefnyddio adborth byw yn y dosbarth gan [system cliciwr](#). Mantais y dull hwn o asesu ffurfiannol yw bod arweinydd sesiwn yn gallu mesur yn ystod sesiwn pa gyfran o'r dosbarth neu grŵp sy'n deall y cysyniadau a'r syniadau allweddol y mae tiwtor yn eu cyflwyno.

Dylid defnyddio asesiadau adolygol hefyd yn ystod neu ar ddiwedd cyfnod astudio i werthuso dysgu a pherfformiad myfyrwyr. Caiff canlyniadau'r asesiadau hyn eu mesur yn erbyn y meini prawf asesu a ddefnyddir i farnu canlyniadau dysgu cysylltiedig modiwl neu raglen, a sefydlwyd gan ddefnyddio meincnodau cenedlaethol. Dylai fod cydbwysedd da rhwng y ddau ddull asesu hyn o fewn rhaglenni a modiwlau.

Mae cyfuno'r holl ddeilliannau dysgu ynghyd o'r holl sesiynau addysgu mewn cwrs yn rhoi'r canlyniadau dysgu cyflawn. Yn aml mae cwblhau ymarfer mapio o ddeilliannau dysgu modiwlau yn rhoi eglurder ynghylch cyflawni deilliannau dysgu cyflawn y rhaglen. Gall hyn fod yn wiriad defnyddiol i sicrhau bod yr holl ddeilliannau dysgu dymunol wedi'u hasesu. Cofiwch y bydd angen cwblhau hyn yn ôl-weithredol yn [Worktribe](#)

Mae'n arfer da i **ddefnyddio gwahanol ddulliau asesu** i brofi'r deilliannau dysgu hyn e.e. cyflwyniadau ysgrifenedig, profion ymarferol, arholiadau ac ati. Mae hefyd yn arfer da ceisio [optimeiddio asesiadau](#) i weddu i natur y pwnc a defnyddio TG lle bo modd.

Yn olaf, mae [Strategaeth Addysgu a Dysgu'r](#) Brifysgol yn egluro y dylai swm yr asesu fod yn gysylltiedig â nifer y credydau a ddyfernir e.e. bydd modiwl 15-credyd nifer is o asesiadau na modiwl 30-credyd.

**Adnoddau:**

[Fframwaith Asesu Prifysgol Bangor](#)

[Canllawiau Deilliannau Dysgu Prifysgol Bangor](#)